

Y Pasg

Darllen: Ioan 19:30

Rhoddir pwys mawr ar eiriau olaf pobl enwog. Geiriau olaf Thomas Charles o'r Bala oedd, 'Y mae noddfa'. Ac yn ôl pob hanes dyma a ddywedodd Oscar Wilde, 'Naill ai y mae'r papur wal yma'n mynd neu mi ydw i'n mynd'! Canolbwyntiwn ar un o eiriau olaf Iesu, ar y groes, 'Gorffennwyd' neu *tetelestai* yn yr iaith Roeg. Gwell cyfieithiad fyddai 'Cyflawnwyd'. Dim ond Efengyl Ioan sy'n cofnodi'r gair hwn.

Ond cyflawni beth? Nid yw Iesu'n cyhoeddi bod y diwedd wedi dod a bod y gwaith a'r holl ymdrech ar ben. Nid gwaedd o ollyngdod sydd yma am fod popeth drosodd, ond gwaedd fuddugoliaethus am fod nod a phwrpas ei genhadaeth wedi'i chyrraedd a phwrpas Duw yn ei anfon i'r byd wedi'i gyflawni. Mae'r hyn y mae'r Tad wedi'i ofyn ganddo wedi'i gyflawni, 'Rwyf wedi llwyddo'. Yr oedd ei farwolaeth, a'r ffordd y bu farw, yn fuddugoliaeth ogoneddus. Mewn ffordd, gellir cymryd y geiriau hyn fel canolbwynt Efengyl Ioan gan fod y groes, i'r efengyllydd, yn uchafbwynt bywyd a gweinidogaeth Iesu Grist. I Ioan, buddugoliaeth oedd croes Calfaria, nid methiant; a gellir dweud fod buddugoliaeth bore'r Pasg wedi cychwyn ym muddugoliaeth Calfaria. Mae Iesu wedi gorffen y gwaith o'i roi ei hun yn gyfan gwbl a diarbed dros y byd. Yma, mae Iesu, wrth farw, yn gorchfygu; ac wrth iddo ildio i farwolaeth mae hefyd yn ei drechu.

Yn dilyn y floedd fuddugoliaethus, mae Ioan yn cofnodi, 'Gwyrodd ei ben, a rhoi i fyny ei ysbryd' (Ioan 19:30). Y gair a ddefnyddiodd Ioan yw'r gair y gellid ei ddefnyddio am rywun yn setlo'n ôl ac yn gorffwyso'i ben ar obennydd. I Iesu, roedd y frwydr fawr a'r artaith drosodd. Roedd y frwydr wedi'i hennill. Ac ar y groes fe wyddai beth oedd y llawenydd a'r fuddugoliaeth, ac felly gallai wyro'i ben yn dangnefeddus o wybod ei fod wedi cyflawni a chwblhau'r gwaith a roddwyd iddo.

Gellir awgrymu ymhellach fod Iesu wedi dewis yr eiliad i farw trwy wyro'i ben. Fel arfer, byddai'n anodd i'r drwgweithredwr anadlu'n naturiol ac

effeithiol ar y groes. A phan fyddai ei goesau'n cael eu torri, byddai'n amhosibl i'r croeshoeliedig wthio'i gorff i fyny a byddai'r corff yn suddo ac yn ei gwneud yn amhosib iddo anadlu. Mae Efengyl Ioan yn awgrymu na adawodd Iesu i hyn ddigwydd, a'i fod wedi dewis ei amser i wyro'i ben ac i'w fywyd ddod i ben. Dewisodd ei awr i farw.

Mae'r gwaith wedi'i wneud. 'Y mae gan y llwynogod ffeiau, a chan adar yr awyr nythod, ond gan Fab y Dyn nid oes lle i roi ei ben i lawr' (Mathew 8:20), ond bellach mae ganddo yntau le i roi ei ben i lawr.

Myfyrdod pellach:

Sut fyddech chi'n mynd ati i bwysu a mesur y cysyniad fod Iesu wedi 'cyflawni' ei waith ar y groes?

Tybed ydi Efengyl Ioan yn mynd yn rhy bell trwy awgrymu fod Iesu wedi dewis ei eiliad i farw?

Y Pasg

Darllen: Ioan 20:13

Mae Mair yn dal i sefyll y tu allan i'r bedd yn wylo, a chwestiwn yr angylion iddi yw, 'Pam yr wyt ti'n wylo?' (Ioan 20:13) Ei hateb hi yw, 'Y maent wedi cymryd fy Arglwydd i ffwrdd, ac ni wn i lle y maent wedi ei roi i orwedd'. Dowch i ninnau ofyn pam fod Mair yn wylo? Mae'n wylo am ei bod wedi cael colled enfawr. Mae hi wedi colli'r dyn oedd wedi trawsnewid ei bywyd. Mae'n wylo am ei bod yn rhythu ar farwolaeth, a hynny'n golygu bod y cyfan wedi dod i ben. Mae hi'n teimlo mor fregus, mor wag, mor unig. Beth sy'n mynd drwy ei meddwl? Y ffordd y cafodd ei ladd? Yr hoelion, y gwaed, y goron ddrain, y gwawdio, y cernodio, y bonllfau a'r milwyr yn chwarae siawns wrth droed y groes? Y trywanu, a Pilat yn golchi'i ddwylo? Mor annynol y gall dyn fod tuag at ei gyd-ddyn; mor greulon, mor hunanol, mor ddichellgar.

Ar y Pasg, gofynnwn, 'Pam yr wyt ti'n wylo?' Chwiliwn am bob esgus i geisio osgoi ateb y cwestiwn. Rydyn ni wedi codi muriau preifatrwydd o'n cwmpas ac wedi gosod llenni o hunangynhaliaeth gan fynnu nad pobl emosiynol ydyn ni. Dydyn ni ddim mo'r teip sy'n colli dagrau, yn enwedig yn gyhoeddus. Ond mae edrych ar Mair, sy'n syllu ar ddiddymdra, yn taro tant yn ein bywydau ninnau hefyd. Edrych i ryw wagle rydyn ninnau o hyd.

Rwyf finnau'n wylo am fy mod, fel Mair, wedi colli pobl fu'n gyfrifol am fy nghodi ar fy nhraed. Rwyf finnau'n wylo am fy mod wedi fy nadrithio, wedi f' anafu a'm bradychu. Rwyf finnau'n wylo am fy mod yr hyn ydwyf. Rwy'n ymwybodol o'r ffordd yr wyf wedi trin eraill, wedi bod yn gas wrth eraill. Eu poenydio a'u hanafu.

Wrth i Mair droi ei chefn ar y bedd mae'n dechrau cynnal sgwrs â'r garddwr. Ond mae'n sylweddoli mai rhywun arall ydi hwn. A dyma'r un cwestiwn eto, 'Wraig, pam yr wyt ti'n wylo?' (20:15) Ond mae hwn yn ychwanegu, 'Pwy yr wyt yn ei geisio?' Cofiwch fod Mair yn wylo am ei bod wedi colli rhywun oedd mor annwyl iddi. Erbyn hyn, mae hi'n

teimlo'n fregus, yn wan ac unig, ac y mae ei nerth wedi pallu. Am bwy mae'n chwilio? Iesu, sef yr hwn sydd wedi gorchfygu marwolaeth ac yn gallu trawsffurfio'r bregus a'r gwan a'r unig. Dim ond un gair a glywodd Mair, sef ei henw. Yn eich hiraeth, beth ydi'r peth mwyaf gwerthfawr fedrwch chi ei gael? Distawrwydd a dweud dim? Cyffyrddiad gofalus? Neu rywun yn siarad yn dyner â chi? Gair neu ddau? 'Mair'. Agorwyd ei llygaid ac mae'n edrych i fyw llygaid y Crist Byw.

Bellach mae'r dagrau'n wahanol. Os yw Iesu wedi dod o'r bedd, mae hi wedi dod o hyd i fywyd newydd. Gall freuddwydio am fyd lle mae creulondeb yn cael ei drawsnewid a dicter yn troi'n drugaredd.

Dyma ddyn a dynes yn yr ardd, a dyma'r darlun a gawn ym mhenodau cyntaf y Beibl, yn yr union le yr aeth pethau o chwith. A dyma'r ardd lle rhoddir pethau yn eu lle o'r newydd. Dyma'r aduniad rhwng dynoliaeth, y greadigaeth a Duw. Os nad ydi hyn yn mynd i wneud i chi golli dagrau o lawenydd, wnaiff dim byd arall.

Myfyrdod pellach:

Dychmygwch eich bod yn yr ardd gyda Mair.

Am beth fyddwch chi'n colli dagrau?

Y Pasg

Darllen: Luc 24:31

Rwyf wedi ymddeol droeon. Fel arfer, unwaith y mae rhywun yn ymddeol yn ystod ei yrfa, ond rydw i wedi ymddeol o fyd addysg, o fyd busnes a dwywaith o'r Weinidogaeth. Hen deimlad digon chwithig ydi ymddeol. Gadael pobl sydd wedi dod yn ffrindiau da, gadael taith yn ôl a blaen o'r gwaith ar ôl dod yn gyfarwydd â phob twll a chornel ar y daith honno. Gadael gwaith oedd mor felys ac a roddodd gymaint o bleser. Ond efallai mai'r chwithdod pennaf oedd gorfod gwrando ar yr areithiau ffarfél. Areithiau oedd ar brydiau yn ymylu ar fod yn deyrngedau a fyddai'n gwneud i'r dim i wasanaethau angladd! Cyfeirio oeddynt yn ddi-feth at orchestion ddoe. Gorffennol rhywun oedd yn cael ei drafod. Gweithredoedd a fu oedd byrdwn y teyrngedau. Ac ar ddiwedd y noson byddai rhywun yn mynd adref yn ddigon digalon gan dybio bod y diwedd yn agos ac nad oedd fawr o ddim i'w wneud bellach ond eistedd yn y gornel neu chwilio am y cartref nyrsio agosaf a phlygu i'r drefn. Ac o ymddeol bedair gwaith, fel yn fy hanes i, roedd y traddodi ar ddigwyddiadau ddoe yn fwy dirdynnol fyth.

Bob tro, adeg y Pasg, wrth i mi droi yn Efengyl Luc at hanes y ddau ar eu ffordd adref i Emaus bydd atgofion am yr ymddeoliadau yn brigo i'r wyneb. Mynd adref o Jerwsalem mae'r ddau, mynd adref yn eu hiraeth a'u digalondid. Mynd adref maen nhw am fod eu breuddwydion yn chwilfriw a'u gobaith yn deilchion. Mae'r groes wedi dod ar draws eu holl ddyheadau a'u dymuniadau, a does dim amdani bellach ond mynd yn ôl i'r hen rigolau, i'r hen ffordd o fyw. Mynd yn ôl i'r gornel.

Ar y ffordd adref, fel y cofiwch, mae cydymaith yn ymuno efo nhw ar y daith. Mae'n dechrau eu holi ac maen nhw'n bwrw eu bol ac yn sôn am ddigwyddiadau ddoe. Soniant am y dyn oedd yn broffwyd nerthol ei weithredoedd a'i eiriau, ac am eu gobaith nhw mai hwn oedd yn mynd i brynu Israel i ryddid. Roedd eu gobeithion yn fawr yn y gŵr hwn, ond daeth y diwedd ac fe gafodd ei groeshoelio. Dyn ddoe oedd Iesu iddyn nhw.

Ond mae'r cydymaith (nad ydyn nhw wedi ei adnabod) yn troi tu min ac yn ei dweud hi wrth y ddau pruddglwyfus trwy 'agorwyd iddynt yr Ysgrythurau' a dehongli ei fywyd ei hun a mynegi pam y bu'n rhaid iddo ddioddef y pethau hyn. Mae'n dangos iddynt, hefyd, ei fod yn ddyn heddiw. Ar ôl cyrraedd gartref mae'r ddau'n gwahodd y dyn dieithr i noswyllo efo nhw gan ei bod yn nosi a'r dydd yn dirwyn i ben. Ac ar doriad y bara, maen nhw'n ei adnabod. Iesu ydi o. Fo ydi'r dyn ddoe yr oedden nhw wedi bod mor barod i sôn amdano ar y ffordd. Mae'r ddau'n dychwelyd i Jerwsalem i rannu eu profiad efo'r lleill. Ydi mae Iesu'n ddyn ddoe, ond mae o hefyd yn ddyn heddiw, yfory, ac yn dragywydd. Dyn pob oes a phob cyfnod ydi Iesu'r Pasg – yr Iesu Byw.

Myfyrdod pellach:

Ai Iesu'r Beibl yn unig ydi Iesu i chi? Ydi o'n brofiad byw i chi heddiw?

Sut mae dehongli 'Iesu heddiw ac yfory ac yn dragywydd'?